# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Her Iechyd Cymru
### Health Challenge Wales

**Q13 Jeff Cuthbert:** Will the First Minister make a statement on Health Challenge Wales? OAQ0262(FM)

**C13 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar Her Iechyd Cymru? OAQ0262(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Health Challenge Wales has got off to a very good start. Almost 5,000 action packs had been requested by 1 March, and calls from organisations wishing to play their part have exceeded expectations. The health living day set an excellent example and thanks are due to Assembly Members for this.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Her Iechyd Cymru wedi cael dechrau da iawn. Gwnaed bron i 5,000 o geisiadau am becynnau gweithredu erbyn 1 Mawrth, ac mae galwadau gan sefydliadau sydd am chwarae'u rhan wedi mynd tu hwnt i'r disgwyl. Gosododd y diwrnod byw'n iach esiampl ragorol ac mae diolch yn ddyledus i Aelodau'r Cynulliad am hyn.

### Prydlesu neu Brynu Cerbydau
### The Lease or Purchase of Rolling Stock

**Q14 Janet Davies:** Will the Minister make a statement on the lease or purchase of rolling stock for Arriva's rail services for the Valley lines? OAQ0235(FM)

**C14 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brydlesu neu brynu cerbydau ar gyfer gwasanaethau rheilffordd Arriva ar gyfer llinellau'r Cymoedd? OAQ0235(FM)

**The First Minister:** The Minister for Economic Development and Transport made a written statement on 3 March 2005, clearly establishing that the leasing arrangement provided best value and that, in any case, there is no suitable rolling stock for purchase. We are responding to peak-hour congestion with a 20 per cent increase on capacity.

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ddatganiad ysgrifenedig ar 3 Mawrth 2005, a nodai'n glir mai'r trefniant prydlesu a roddai'r gwerth gorau, ac nad oes unrhyw gerbydau addas i'w prynu beth bynnag. Yr ydym yn ymateb i dagfeydd yn ystod oriau brig drwy gynyddu capasiti 20 y cant.

### Methiant i Sicrhau Cyllid Cyfatebol
### The Failure to Secure Match Funding

**C15 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y methiant i sicrhau cyllid cyfatebol oddi wrth y Trysorlys ar gyfer cyllid Ewropeaidd? OAQ0240(FM)

**Q15 Elin Jones:** Will the Minister make a statement on the failure to secure match funding from the Treasury for European funds? OAQ0240(FM)

**Y Prif Weinidog:** Drwy gyflwyno rhaglen y

**The First Minister:** Our successful delivery of the

cronfeydd strwythurol yn llwyddiannus, gwelwyd bod digon o arian cyfatebol ar gael. Nid oes unrhyw brosiect buddiol sy’n cefnogi ein hagenda strategol wedi methu—ac ni wnaiff—oherwydd diffyg arian cyfatebol.

structural funds programme has shown that there is sufficient match funding available. No worthwhile project that supports our strategic agenda has failed—or will fail—through lack of match funding.